

Gwybodaeth Undebol

Gweithredu diwydiannol gan undebau eraill mewn Sefydliadau Addysg Uwch

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Gweithredu diwydiannol gan undebau eraill mewn Sefydliadau Addysg Uwch

Mae'r daflen hon yn cynnig arweiniad i aelodau UCAC yn y sefyllfa honno pan fydd aelodau o undebau eraill yn gweithredu'n ddiwydiannol.

Os yw'r sefydliad ar agor, disgwylir i staff weithio fel arfer a chyflawni eu dyletswyddau arferol.

Nid yw aelod o UCAC i weithredu mewn unrhyw fodd a all gael ei ddehongli'n weithred sy'n tanseilio gweithredu diwydiannol undeb arall.

Er enghraifft, ni ddylid ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau sy'n *ychwanegol* i'r gwaith arferol - yn enwedig os yw'r dyletswyddau hyn yn rhan o waith arferol person sy'n gweithredu'n ddiwydiannol.

Os oes picedu y tu allan i'r safle, disgwylir i staff nad ydynt yn perthyn i undeb sy'n streicio groesi'r llinell. Os yw aelod o staff yn penderfynu peidio â chroesi'r llinell biced, golyga hyn y bydd yn torri ei ch/gytundeb; yn ogystal â cholli cyflog, fe all arwain at broses ddisgyblu.

Os oes gweithiwr yn aros i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch ar ddiwrnod o weithredu diwydiannol gan undeb arall, mae hawl gan y cyflogwr ofyn am bapur meddyg swyddogol am y diwrnod hwnnw.

Mae'r gyfraith yn gwahardd gweithredu'n ddiwydiannol heb ddilyn trefn benodol sy'n cynnwys cynnal balot o'r aelodau perthnasol.

Cysylltwch â'r Swyddog Maes perthnasol am gyngor pellach, neu ffoniwch prif swyddfa UCAC ar 01970 639950.

Swyddogion Maes

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru

Swyddogion eraill UCAC

- Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, dilwyn@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi ac Is-ysgrifennydd Cyffredinol, rebecca@ucac.cymru

Diweddardwyd: Chwefror 2022



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com /AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com /AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru